Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG SCHTh 2024-2025

## Cynnwys

1. **Rhagair……………………………………………………...………………………3**

2. **Cyflwyniad a Chefndir…………………………………………………………………..4**

3. **Strategaeth y Gymraeg….…………………………………………………………4**

4. **Pethau a Gyflawnwyd………………………………………………………......... 7**

5. **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg…………………...……………………..…………8**

6. **Cyrsiau Cymraeg……………………………………………...………………… 8**

7. **Gallu Iaith Gymraeg y Staff ………………..………………….…………......………8**

8. **Llunio Polisi…..…………………………………………………………..……….9**

9. **Anfodlonrwydd …..……………………………………………..……..……..10**

10. **Lefelau'r Gymraeg…...………………………………………………………….10**

## 1. Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg sy'n dangos y cynnydd a gyflawnwyd a'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod 2024/2025.

Fel Swyddfa, rydyn ni wedi parhau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddwn yn darparu ein gwasanaethau. Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n deall ac yn cydnabod pwysigrwydd ein Cymunedau a'u hawydd i dderbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith. Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad o fewn gallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflenwi gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i fonitro er mwyn sicrhau enillion digonol ar y buddsoddiad.

Mae fy Swyddfa wedi mynd ati'n weithredol i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac i ymgorffori ymhellach Safonau'r Gymraeg gyda'r bwriad o fynd y tu hwnt i ofynion a datblygu gweithlu cwbl ddwyieithog.

Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg, a hefyd cynnydd yn lefelau sgiliau rhai aelodau o staff ar ôl iddynt fynychu cyrsiau Cymraeg. Rydym hefyd wedi parhau i roi amser ac anogaeth i bobl wella eu Cymraeg mewn amgylchedd diogel.

Yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-2025 fy cyhoeddais byddai'n buddsoddi yng ngallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg. Ceir enghraifft o hyn yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, lle y cytunodd y Comisiynydd i fuddsoddi ychwanegol ar gyfer recriwtio trinwyr galwadau Cymraeg eu hiaith.

Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025-2029 gan y bydd buddsoddi yn narpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn allweddol i gyflawni gweledigaeth y Comisiynydd i wella ffydd a hyder mewn plismona lleol.

Dafydd Llywelyn,

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## 2. Cyflwyniad a Chefndir

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 30 Mawrth 2017. Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru hwy yn unol ag adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Maent wedi'u creu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn ystod 2024-25, mae SCHTh Dyfed-Powys wedi parhau i arddel defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chyda'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn cael mynediad at ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd.

Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, sut rydym yn hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg, a sut mae SCHTh yn gweithio i sicrhau y cedwir at y safonau. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan SCHTh yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 3. Strategaeth y Gymraeg

Yn 2024-2025, lansiwyd strategaeth iaith yn arbennig ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â'r nod o ddatblygu gweithlu sy'n cynrychioli ein cymunedau ymhellach sy'n sicrhau:

- Bod ein cymunedau'n derbyn gwasanaeth Cymraeg pan ofynnir amdano.
- Ein bod yn denu mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â SCHTh fel staff neu fel gwirfoddolwyr
- Ein bod yn darparu cyfleoedd digonol i'n staff a'n gwirfoddolwyr ddysgu Cymraeg.
- Bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol o ran holl bolisïau a gweithdrefnau SCHTh.

Roedd y strategaeth yn cynnwys 7 amcan allweddol a gwelir y cynnydd a wnaed gennym yn erbyn yr amcanion hynny yn y tabl canlynol.

| Amcan | Rheswm | Cynnydd |
|---|---|---|
| **1.** Annog staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd i wella eu sgiliau Cymraeg. | Bydd hyn yn cynorthwyo SCHTh yn ei hymdrechion i ddod yn sefydliad dwyieithog. | Fel rhan o'u datblygiad, anogir staff i dderbyn cyfleoedd i wella eu sgiliau Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn hon, derbyniodd tri aelod staff hyfforddiant Cymraeg lefel un a derbyniodd dau aelod staff hyfforddiant Cymraeg lefel 2. Trefnwyd sesiynau misol o'r enw "Clwb Clecs", sy'n rhoi cyfle i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Mynychwyd sawl sesiwn yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn y flwyddyn nesaf â'r bwriad o loywi'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y sesiynau'n fuddiol i staff. |
| **2.** Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gwirfoddoli fel rhan o waith sicrwydd a chraffu SCHTh. | Bydd hyn yn helpu staff yn SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys drwy gael mwy o unigolion sy'n medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae recriwtio gweithredol yn digwydd ar gyfer yr holl gynlluniau gwirfoddoli sy'n cael eu cynnal gan SCHTh ac mae un unigolyn sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi ymuno â'r cynlluniau yn 2024-2025. Roedd 11 ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y holl gynlluniau gwirfoddoli yn 2024/2025. |
| **3.** Cynyddu sgiliau Cymraeg gwirfoddolwyr presennol sy'n gwirfoddoli fel rhan o waith sicrwydd a chraffu SCHTh. | Bydd hyn yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n medru defnyddio'r Gymraeg ac yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. | Ar y cyd ag athrawes Gymraeg yr Heddlu, derbyniodd nifer o wirfoddolwyr ar draws ein cynlluniau hyfforddiant Cymraeg lefel 1. Yn ogystal, derbyniodd tri o aelodau staff gwasanaeth a gomisiynir gennym yr |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyfforddiant hefyd. Cafwyd trafodaethau mewn perthynas ag estyn cynnig i ddarparu hyfforddiant lefel 2, a bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn y flwyddyn nesaf. |
| **4.** Hyrwyddo a monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y swyddfa gyfan yn cydymffurfio. | Bydd hyn yn sicrhau bod SCHTh yn cydymffurfio'n llawn â chyflenwi Safonau'r Gymraeg. | Drwy gydol 2024-2025, gwnaed llawer iawn o waith i ddiwygio gwefan SCHTh. Roedd hyn yn cynnwys gwirio bod yr holl wybodaeth hefyd ar gael yn Gymraeg. Roedd hyn yn atgoffa'r staff ymhellach am y gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. |
| **5.** Ymgysylltu â chymunedau mewn digwyddiadau cyhoeddus i dynnu sylw at argaeledd gwasanaethau Cymraeg. | Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau'n deall ein bod ni'n darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a bod cyfle gyda nhw i gyfathrebu â ni yn Gymraeg. | Mynychodd SCHTh nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod 2024/2025. Rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd sgwrsio yn Gymraeg os oeddent yn dymuno hynny, ac roedd yn gyfle i dynnu sylw at y ddarpariaeth Gymraeg yn SCHTh. Aeth SCHTh i'r Sioe Frenhinol, Sioe Sir Benfro, ac Eisteddfod yr Urdd ym Meifod. |
| **6.** Tynnu sylw at gyrsiau ar gyfer aelodau staff sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. | Bydd hyn yn helpu SCHTh i ddod yn sefydliad dwyieithog. | Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei drin o dan pwynt 1 uchod. |
| **7.** Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg staff drwy ffyrdd arloesol a chreadigol, gan gynnwys dathlu gwyliau a digwyddiadau diwylliannol Cymru. | Bydd dathlu digwyddiadau Cymreig traddodiadol yn rhoi mwy o wybodaeth am hanes cyfoethog Cymru i staff sydd â llai o sgiliau ac yn eu grymuso i ddysgu'r | Cynhaliodd CHTh ei 10fed Cynhadledd Gŵyl Ddewi flynyddol i gyd-fynd â'r diwrnod symbolaidd o ddathliad Cymreig. Yn ogystal, aeth staff i Eisteddfod yr Urdd ym |

| | | |
|---|---|---|
| | iaith a dysgu am ddiwylliant Cymru. | Meifod, sef un o'r gwyliau ieuenctid mwyaf yn Ewrop, ym mis Mai 2024. |

Mae dwy iaith a gydnabyddir yn gyfreithiol yng Nghymru ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith - Dau Ddewis!** Dyma lle rydym fel sefydliad yn sicrhau ein bod yn gyfreithiol yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog a bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel iaith gyfartal.

Mae aelod o dîm SCHTh yn aelod o grŵp 'Yr Iaith ar Waith', sef Grŵp Gweithredu Iaith Gymraeg yr Heddlu. Diben y grŵp yw hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg i Heddlu Dyfed-Powys a datblygu gwaith ym maes y Gymraeg ymhellach ar lefel strategol. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i rannu arferion gorau a deall unrhyw faterion y gall yr Heddlu fod yn eu hwynebu o ran y Gymraeg. Mae'n rhan o waith craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar berfformiad y Prif Gwnstabl o ran cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i ddarparu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4. Pethau a Gyflawnwyd

### Digwyddiadau: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod

Yn ystod mis Mai 2024, roedd Eisteddfod yr Urdd ym Meifod, lle y gwnaethom rannu stondin â Heddlu Dyfed-Powys. Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn un o wyliau teithiol ieuenctid mwyaf Ewrop sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Roedd yr Eisteddfod yn gyfle allweddol inni ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, a siaradwyr Cymraeg yn arbennig, i hyrwyddo gwaith y Swyddfa ac i roi cyfle iddynt godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad, 'Dweud eich Dweud', lle'r oedd unigolion yn medru mynegi eu barn am yr hyn yr oeddent yn hoffi a'r hyn nad oeddent yn hoffi am yr ardal lle maen nhw'n byw a beth hoffent wella. Yna, defnyddiwyd yr adborth i ffurfio'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2025-2029.

### Cyfathrebu

Mae ein holl gyfathrebiadau i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ein holl bostiadau cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a bwletinau misol, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

**Gwasanaethau a Gomisiynir**

Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth dan gytundeb gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Caiff hyn ei brofi o fewn y broses dendro a'i sgorio yn y cam gwerthuso. Unwaith y caiff ei ddyfarnu, mae gofyniad i adrodd ar y ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o fonitro chwarterol ac archwiliad blynyddol gwasanaethau.

## 5. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

**Safonau'r Gymraeg**

Nid oedd y swyddfa'n destun gwiriadau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ei bod wedi'i gwirio'r flwyddyn gynt. Fodd bynnag, parhaodd gwaith drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r Safonau ar draws y swyddfa.

Wrth gyflwyno gwefan newydd SCHTh, roedd angen sicrhau bod unrhyw ddeunydd newydd a deunydd a oedd yn bodoli eisoes ar gael yn ddwyieithog. Ymgysylltodd SCHTh yn uniongyrchol â Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chyhoeddi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan y bu dryswch o ran pa un ai a oedd angen i sefydliadau gyfieithu ceisiadau ai peidio. Cynghorodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen cyfieithu cais rhyddid gwybodaeth heblaw bod y cais yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

## 6. Cyrsiau Cymraeg

Anogir staff yn SCHTh i ddilyn unrhyw gyrsiau Cymraeg y teimlir eu bod yn berthnasol ac yn briodol. Mae gan y staff fynediad i'r un cyrsiau sydd ar gael i swyddogion a staff yr heddlu ac maent yn amrywio o ran cymhlethdod yn dibynnu ar lefel y gofyniad.

Yn ystod 2024/2025 manteisiodd staff ar y cyrsiau i wella eu sgiliau. Ymgymerodd tri aelod staff â'r hyfforddiant lefel 1 ac ymgymerodd dau aelod staff â'r hyfforddiant lefel 2.

Mae'r Swyddfa wrthi'n chwilio am gyrsiau y gellir eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw gyrsiau perthnasol ar gael.

Roedd amcan yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mhroffil Datblygu ac Asesu rhai aelodau staff er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu cefnogi gyda'u hawydd i wella eu sgiliau Cymraeg. Roedd hyn yn dilyn y flwyddyn flaenorol pan oedd gan bob aelod staff amcan mewn perthynas â'r Gymraeg.

Roedd enghreifftiau o amcanion penodol ar gyfer aelodau staff yn 2024/2025 fel a ganlyn:

- Cynyddu hyder yn y Gymraeg a'i defnyddio o fewn amgylchedd waith
- Defnyddio a phronadu'r Gymraeg bob cyfle a gewch yn y gwaith
- Parhau i ddatblygu dealltwriaeth a defnydd o'r Gymraeg
- Datblygu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg yn SCHTh a gyda phartneriaid er mwyn cefnogi cyflenwi Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn cytunwyd y byddai gan bob aelod staff amcan o fewn eu Proffil Datblygu ac Asesu eto yn 2025/2026. Yr amcan yw "Cefnogi a hyrwyddo datblygiad proffesiynol personol yn weithredol, gan gynnwys datblygu sgiliau Cymraeg, yn y gweithle drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n annog dysgu, hyder a throsglwyddo sgiliau.

## 7. Gallu Iaith Gymraeg y Staff

Mae'n bwysig i weithlu SCHTh gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Fel swyddfa, rydym yn falch o'n Cymreictod ac yn dymuno annog staff i gefnogi ein holl breswylwyr drwy ymgysylltu â nhw yn Gymraeg pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Credwn ei bod yn bwysig i'n staff allu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol i'n preswylwyr ac i'n gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae SCHTh wedi ymrwymo i gael gweithlu sydd i gyd yn gallu sgwrsio yn Gymraeg ar lefel 1 o leiaf.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, o fis Ebrill 2019 mae pob proffil rôl newydd ar gyfer staff yn nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i lefel 1 neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn chwe mis i'w benodi.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/2025 cofnodwyd y lefelau canlynol o sgiliau llafar a sgiliau ysgrifenedig Cymraeg. Bu cynnydd yn yr unigolion hynny sydd ar lefel 1 a lefel 4 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

| **Sgiliau Llafar Cymraeg** | |
|---|---|
| Lefel 0 | 1 |
| Lefel 1 | 6 |
| Lefel 2 | 0 |
| Lefel 3 | 6 |

| | |
|---|---|
| Lefel 4 | 4 |
| Lefel 5 | 6 |
| **Sgiliau Ysgrifenedig Cymraeg** | |
| Lefel 0 | 1 |
| Lefel 1 | 6 |
| Lefel 2 | 0 |
| Lefel 3 | 6 |
| Lefel 4 | 4 |
| Lefel 5 | 6 |

## 8. Llunio Polisi

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gan SCHTh gyfrifoldeb i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw bolisi, gweithdrefn neu weithgaredd y mae SCHTh yn ymgymryd ag ef, i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac nad yw'n cael effaith andwyol neu negyddol ar unrhyw grwpiau penodol o bobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan asesu'r effaith y gallai ei chael ar unigolyn.

Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr asesiad hwn er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried bob amser. Mae'r cwestiwn yn gofyn y canlynol:

*'Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae angen rhoi'r ystyriaethau a ganlyn hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:*

*Dangoswch sut yr ydych wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar y canlynol -*

*(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

*Dangoswch sut yr ydych wedi ystyried sut na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai wedi lleihau effeithiau andwyol, ar y canlynol – (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Pryd bynnag y bydd SCHTh yn cynnal darn o waith annibynnol, rydym hefyd yn sicrhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal. Mae enghreifftiau o asesiadau effaith blaenorol yn cynnwys:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Praesept y Dreth Gyngor - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throseddu
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/wt4hqazm/vef-equality-impact-assessment-2024.pdf
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun Heddlu a Throseddu - police-and-crime-plan-equality-impact-assessment-2024-cym.pdf

Mae'r rhain i gyd wedi'u cyhoeddi ac ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

## 9. Anfodlonrwydd

Ni dderbyniodd SCHTh unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## 10. Lefelau'r Gymraeg

| Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn SCHTh | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewn swyddfa** | Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg. | Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol, ee tasgau gweinyddol syml neu dasgau arferol. | Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn ei faes gwaith ei hun a dadlau o blaid neu yn erbyn achos. | Yn gallu cyfweld ag ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am swyddi ac asesu eu haddasrwydd. |
| **Cyfarfodydd cyhoeddus / siarad â'r cyfryngau** | Yn gallu agor a chau cyfarfodydd a chroesawu cyfranogwyr yn ddwyieithog. | Yn gallu cyflwyno ei hun ac eraill yn ôl enw, rheng, rôl, a lleoliad/ sefydliad. Yn gallu cyfrannu mewn cyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. | Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, ateb cwestiynau, neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth. | Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi i'r Saesneg am dermau technegol neu blismona. | Yn gallu darparu cyflwyniadau Cymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu elyniaethus yn Gymraeg i'r graddau bod ganddo/ganddi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol. |
| **Ysgrifennu** | Yn gallu ysgrifennu cais arferol syml at gydweithiwr, megis 'A gaf i … os gwelwch yn dda?' | Yn gallu ysgrifennu nodyn cais byr at gydweithiwr neu gyswllt allanol hysbys. | Yn gallu ysgrifennu memos mewnol anffurfiol, negeseuon e-bost ac ymdrin â cheisiadau arferol. | Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon e-bost a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol. | Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod. |

### Gwybodaeth Bellach

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg; anfonwch e-bost i opcc@dyfed-powys.police.uk